

# Cymysgedd ryfedd

*“...aethant i fyny i’r oruwchystafell ... Pedr ac Ioan ac Iago ac Andreas, Philip a Thomas, Bartholomeus a Mathew, Iago fab Alffeus a Simon y Selot a Jwdas fab Iago.” (adn. 13)*

## Beth am ddarllen Actau 1:12–26 ac yna myfyrio

Rydyn ni am barhau i fyfyrio ar y dynion a benododd Crist i sefydlu ei Eglwys ac i barhau â’r gwaith a gychwynnodd. O feddwl am y peth, roedd ein Harglwydd yn ei mentro hi wrth roi’r dyfodol yng ngofal y dynion yma. Dyna i chi griw brith oedden nhw. Ystyriwch bedwar ohonynt. Roedd Pedr yn benboeth, yn fyrbwyll, yn wyllt, ac yn dipyn o froliwr. Dyna gymysgedd rhyfedd oedd e – yn gallu cerdded ar y dŵr at Iesu (Math. 14:28–29), ond yna darllenwn ei fod wedi “canlyn o hirbell” ar y tir (Luc 22:54). A dyna i chi Ioan. Yn seicolegol, roedd e’n hollol wahanol i Pedr, gan ei fod yn ddyn cyfriniol, dwfn ei feddyliau, wedi ymgolli mewn myfyrdod bob amser. Wedyn dyna Andreas, dyn oedd wrth ei fodd yn gweithio’n dawel yn y cefndir, gan wneud cymaint ag y gallai ar gyfer yr achos heb hysbysebu ei weithredoedd yn amlwg. Bob tro y gwelwn Andreas yn yr efengylau, mae’n dod â rhywun at Iesu. Ac yn olaf, Thomas, Thomas yr amheubr fel y galwn ef. Ef oedd rhesymolwr y criw, dyn craff, hirben, oedd â’i ffydd ar flaenau’i fysedd fel petai. Yn y pedwar dyn yma rydyn ni wedi cynrychioli pedwar pwynt y cwpawd seicolegol, ac eto cawson nhw eu dewis gan Grist a’u mowldio yn ddynion nad oedd mo’u gorchfygu.

Dywedodd Brennan Manning: “Ymateb Crist i’w diffygion a’u hanghysondebau oedd diddiwedd.” Roedd y criw cymysg yma, na fydden nhw byth wedi dewis ei gilydd, gyda’i gilydd oherwydd bod Iesu wedi eu dewis ac yn parhau i’w caru er gwaethaf eu ffaeleddau. Ac yn awr, wrth esgyn i’r nefoedd, roedd e’n mentro’r cyfan drwy ymddiried y genhadaeth iddynt, a hynny am fod ganddo hyder llwyr yn y gwaith a wnaeth ynddynt, ac, wrth gwrs, yn awdurdod yr Ysbryd Glân yr oedden nhw ar fin ei dderbyn.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 33:11–12; Marc 2:13–17; Luc 10:22–24; Ioan 1:35–51; 1 Cor. 1:26–31

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pwy oedd Iesu ym marn y disgyblion?
2. Sut bu i ddewis Iesu o ddisgyblion achosi gwrthdaro?

## Gweddi

O Dad, dw i’n gweld nad cymdeithas gyffredin mo’r un sy’n gallu croesawu pobl fel Pedr, Andreas, Ioan, a Thomas, a’u defnyddio fel un tîm. Mae hi’n gymdeithas â Meistr sy’n gallu newid pethau. Dw i mor falch mod i’n rhan o’r gymdeithas honno. Amen.